PHILLIPS, SAMUEL LEVI, neu SAMUEL LEVI (c. 1730 - 1812), bancer a gemydd

Enw: Samuel Levi Phillips
Dyddiad geni: c. 1730
Dyddiad marw: 1812
Priod: Dorothy Phillips (née Hood)
Plentyn: Sarah Charles (née Phillips)
Plentyn: Philip Phillips
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bancer a gemydd
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Economeg ac Arian
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd yn ôl pob tebyg yn Frankfurt-ar-Main yn yr Almaen. Daeth i Brydain gyda'i frawd, MOSES; o Lundain daethant i Hwlffordd yn Sir Benfro. Cawsant garedigrwydd yno gan r o'r enw Phillips a chymerasant ei enw. Bedyddiwyd y ddau yn eglwys Fair, Hwlffordd (Moses ar 23 Mehefin 1755). Yr oedd Samuel yn un o sylfaenwyr banc Hwlffordd a banc Milffwrd. Priododd yn gyntaf Dorothy Hood, a bu iddynt blant. O'r rhain, daeth Philip yn daid i Hugh Price Hughes, a phriododd Sarah (1757 - 1817) â David Charles (I). Priododd Eliza (1798 - 1876), eu merch hwy, â Robert Davies.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

West Wales Historical Records (1910–29), vi, 155-8

Er Clod Saith Bennod ar Hanes Methodistiaeth yng Nghymru, 69-71

gwybodaeth bersonol

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Samuel Levi Phillips

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18535879

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu